

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar
Lobio a Grwpiau Trawsbleidiol**

Mai 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1821
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Safonau@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**Adroddiad 03-13 i'r Cynulliad ar
Lobio a Grwpiau Trawsbleidiol**

Mai 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir iddo gan y Comisiynydd Safonau; ystyried unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau; sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Mick Antoniw (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Pontypridd



Llyr Huws Gruffydd
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Kirsty Williams
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Cynnwys

Argymhellion	5
Cyflwyniad	7
Cefndir	8
Ymdriniaeth	10
Y trefniadau presennol	11
Asesiad y Comisiynydd.....	11
Safbwynt y Pwyllgor.....	12
Diben a gwerth cofrestr statudol o lobïwyr	13
Asesiad y Comisiynydd.....	13
Safbwynt y Pwyllgor.....	13
Dull ‘Gwnaed yng Nghymru’	15
Codau Ymarfer.....	15
Cofrestru gwybodaeth am weithgarwch lobio yn wirfoddol.....	15
Craffu ar ymddygiad Aelodau Cynulliad unigol ac ymddygiad Gweinidogion Cymru	19
Grwpiau trawsbleidiol	21
Tryloywder ac atebolrwydd.....	21
Cydymffurfio.....	23
Adnoddau a chymorth ar gyfer gweithgareddau grwpiau trawsbleidiol.....	24
Atodiad A	28
Atodiad B	29
Atodiad C	31
Atodiad D	34

Argymhellion

Recommendation 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod canllawiau ar lobio a mynediad at Aelodau yn cael eu mabwysiadu drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

(Tudalen 18)

Recommendation 2. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd Prif Weinidog Cymru i ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â gweithgarwch lobio a Gweinidogion Cymru.

(Tudalen 20)

Recommendation 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell amnewid y canllawiau presennol ar y ffordd y mae grwpiau trawsbleidiol yn gweithredu am reolau llymach a fyddai'n cael eu hategu gan y Cynulliad cyfan. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r rheolau gynnwys gofyniad i gyhoeddi cofnodion yr holl gyfarfodydd; cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; a chyhoeddi datganiad ariannol blynyddol sy'n nodi'r holl dreuliau, buddion a lletygarwch a gafwyd, ac i restru'r darparwr/darparwyr, yn ogystal â nodi unrhyw lobïwyr proffesiynol neu sefydliadau elusennol y maent wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dylid cyhoeddi'r holl wybodaeth ofynnol gyda'i gilydd ar dudalennau'r grwpiau trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad.

(Tudalen 21)

Recommendation 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai grwpiau trawsbleidiol barhau i fod y tu allan i gwmpas y Rheolau Sefydlog ac y dylid eu gweld fel rhywbeth sydd ar wahân i fusnes ffurfiol y Cynulliad.

(Tudalen 21)

Recommendation 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod rheolau newydd ar weithrediad grwpiau trawsbleidiol yn pwysleisio mai cyfrifoldeb Cadeiryddion grwpiau trawsbleidiol, fel aelodau etholedig, yw cydymffurfio â'r rheolau hynny.

(Tudalen 22)

Recommendation 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw reolau newydd ar gyfer grwpiau trawsbleidiol yn rhoi ystyriaeth i ddyletswyddau cydraddoldeb y Cynulliad mewn perthynas â darparu manau cyfarfod ac adnoddau at ddibenion mynediad i bobl anabl.

(Tudalen 24)

Recommendation 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn nodi goblygiadau'r rheolau newydd ar yr agweddau hynny ar weithgarwch grwpiau trawsbleidiol y gellir eu hariannu o gronfeydd canolog Comisiwn y Cynulliad. (Tudalen 26)

Recommendation 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid adolygu trefniadau'r Cynulliad mewn perthynas â lobïo a grwpiau trawsbleidiol eto cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn addas i'r diben yng nghyd-destun proses ddatganoli ddynamig. Efallai y byddai'r Pwyllgor am wneud sylwadau pellach i'r Llywydd, Llywodraeth Cymru neu unrhyw un arall sy'n gwneud penderfyniadau o ganlyniad i newidiadau i bwerau datganoledig y Cynulliad. (Tudalen 26)

Cyflwyniad

1. Lluniwyd yr adroddiad hwn yn dilyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r trefniadau presennol ynghylch lobïo yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r trefniadau hyn wedi bod ar waith ers peth amser, ac roedd y Pwyllgor am ei fodloni ei hun eu bod yn parhau yn addas i'r diben, yng nghyd-destun y pwerau deddfu cryfach sydd gan y Cynulliad yn y Pedwerydd Cynulliad, ac i'r dyfodol.
2. Roedd cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:
 - asesu a yw trefniadau presennol y Cynulliad ynghylch lobïo yn ddigon cadarn ac addas i'r diben ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad;
 - gwneud argymhellion i'r Llywydd, Comisiwn y Cynulliad ac/neu'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fesurau pellach, naill ai mesurau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol, y dylid eu hystyried i reoleiddio gweithgareddau lobïo mewn perthynas ag Aelodau Cynulliad unigol;
 - cynghori'r Llywydd am ganfyddiadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r trefniadau presennol sy'n rheoli dull grwpiau trawsbleidiol o weithio.
3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Pwyllgor a'r argymhellion canlyniadol.

Cefndir

4. Ar 8 Mai 2012, ysgrifennodd y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor (gweler Atodiad A) yn gofyn i'r Pwyllgor ymgymryd ag adolygiad i ystyried y drefn sydd yn ei lle ar gyfer Aelodau, a gwneud argymhellion, os oes angen, ynghylch unrhyw drefniadau ychwanegol a allai fod eu hangen i gryfhau'r drefn.
5. Cytunodd y Llywydd i ystyried unrhyw argymhellion yng nghydestun materion eraill fel y trefniadau ar gyfer grwpiau trawsbleidiol a'r angen i amddiffyn diwylliant y Cynulliad fel sefydliad agored a hygyrch. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd ei argymhellion yn cael eu hystyried, fel sy'n briodol, gan Lywydd y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad, sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu, a'r Pwyllgor Busnes mewn perthynas â gofynion y Rheolau Sefydlog.
6. Dylid ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor yng nghydestun ymgynghoriad Llywodraeth y DU (Swyddfa'r Cabinet), *Introducing a statutory register of lobbyists*, a gyhoeddwyd ar 20 Ionawr 2012¹. Mae'r ymgynghoriad yn nodi: "We will now be taking forward discussions with a view to including the Devolved Administrations and Legislatures within the scope of a statutory register."²
7. Ar 15 Mawrth 2012, ysgrifennodd y Llywydd, ar ran y Cynulliad, at y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, yn datgan:

"In my view the Assembly should be responsible for making any decisions on further governance arrangements...

"We already have in place, in Wales, robust measures to govern the relationships Members have with outside organisations, but we must never be complacent. I believe that the Assembly's Committee on Standards of Conduct is likely to want to consider whether any further safeguards are needed, in

¹ Introducing a statutory register of lobbyists, Swyddfa'r Cabinet, 20 Ionawr 2012.

² Yn yr Alban, cafodd Bil Tryloywder Lobio (Yr Alban) ei gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2012 gan Neil Findlay MSP. Byddai'r cynnig drafft yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion a sefydliadau penodol sy'n lobio Aelodau o Senedd yr Alban, Gweinidogion yr Alban neu swyddogion cyhoeddus perthnasol, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar ran trydydd parti, gofnodi gwybodaeth berthnasol ynghylch eu gweithgarwch lobio mewn cofrestr a gyhoeddir. Daeth y cynnod ymgynghori ar y cynnig i ben ar 7 Tachwedd 2012.

conjunction with the Assembly's Commissioner for Standards, and, if so, whether these would require legislation.”

8. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar 16 Gorffennaf 2012 ac, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r cynigion diwygiedig ar ffurf Papur Gwyn a Bil drafft wedi'u cyhoeddi.

Ymdriniaeth

9. Ar 12 Mehefin 2012, cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Chomisiynydd Safonau Cymru y dylid cynnal adolygiad o drefniadau'r Cynulliad mewn perthynas â gweithgareddau lobïo ar unwaith fel rhan o'r adolygiad parhaus o weithdrefnau safonau'r Cynulliad, er y nodwyd na wnaethpwyd unrhyw gŵyn i Gomisiynydd Safonau Cymru mewn perthynas â lobïo ers iddo fod yn y swydd. Cynhaliodd y Comisiynydd ymgynghoriad cynhwysfawr dros gyfnod yr haf, gan gynnwys yn fewnol gydag Aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad B), a chyflwynodd adroddiad i'r Pwyllgor yn yr hydref ynghylch a oedd y trefniadau presennol yn ddigon cadarn.

Y trefniadau presennol

Asesiad y Comisiynydd

10. Wrth gynnal ei asesiad, dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- mai barn unfryd pawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad sy'n gweithredu yng Nghymru a/neu yn y Cynulliad Cenedlaethol yw bod arferion lobïo, yn eu hanfod, yn dryloyw a'u bod yn cael eu plismona a'u rheoleiddio'n ddigonol;
- bod y Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer Cofrestru a Datgan "*rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol*" o unrhyw fath i'r Aelod, partner yr Aelod neu blentyn dibynnol i'r Aelod, ac ar lefel (tua £279) sylweddol is na Seneddau eraill yn y Deyrnas Unedig, heblaw am un, ac yn uwch, ond yn unol â'r lefel yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon;
- bod Rheol Sefydlog 2 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn benodol yn gwahardd lobïo am dâl neu gydnabyddiaeth (Rheol Sefydlog 2.8) ac yn darparu ar gyfer yr hawl i wahardd Aelod os bydd yn torri'r rheolau (Rheolau Sefydlog 2.10 a 2.11);
- nad oes cwyn yn ymwneud â lobïo wedi'i gwneud yn erbyn Aelod mewn blynyddoedd diweddar - neu, cyn belled ag y gwyddai'r Comisiynydd, ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol;
- bod y gyfraith droseddol yn darparu ar gyfer derbyn, neu roi, rhoddion neu lwgrwobrwyon gan, neu i, bobl mewn swyddi cyhoeddus mewn modd amhriodol.

11. Daeth Comisiynydd Safonau Cymru i'r casgliad ei fod:

“yn gadarn o'r farn bod y trefniadau presennol sydd yn eu lle ar gyfer rheoleiddio lobïo, fel y maent yn berthnasol i Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol, yn eu hanfod yn ddigon cadarn ac addas i'r diben.”

12. Wrth ystyried asesiad y Comisiynydd, nododd y Pwyllgor, yn benodol, bwysigrwydd y canlynol:

- bod angen cynnal diwylliant agored y Cynulliad ac argaeledd ei Aelodau, fel nad yw'r broses ddemocrataidd yn cael ei llyffetheirio;

- bod angen cynnal tryloywder i'r cyhoedd, y bobl sy'n gwneud penderfyniadau a phobl eraill sydd â diddordeb o ran canfod beth sy'n dylanwadu ar eu cynrychiolwyr etholedig. Mae'n bwysig iawn bod gan y cyhoedd hawl i gael mynediad at wybodaeth;
- er mwyn osgoi unrhyw demtasiwn i gyflwyno rheoliad er ei fwyn ei hun, ac i beidio â rhoi baich dianghenraid ar bwrs y wlad;
- yr angen i beidio â llaesu dwylo, a sicrhau y bydd y rheolau'n parhau'n ddigon cadarn yn y dyfodol - yn enwedig o gofio'r pwerau deddfu ychwanegol a roddwyd i'r Cynulliad, a chanlyniad Comisiwn Silk, gan gynnwys y posibilrwydd o gael pwerau benthyca arian a/neu godi trethi yn y dyfodol.

Safbwynt y Pwyllgor

13. Mae lobiö yn agwedd bwysig ar y broses ddemocrataidd ac ni ddylid cyfyngu ar allu Aelodau etholedig i wneud eu swyddi'n effeithiol. Roedd y Pwyllgor yn cytuno ag asesiad y Comisiynydd Safonau o drefniadau presennol y Cynulliad mewn perthynas â lobiö, ac nid yw'n argymhell gwneud unrhyw newidiadau sylfaenol i'r trefniadau hynny.

14. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nad ydym yn llaesu dwylo. Cododd rhai ystyriaethau penodol o waith ymchwil ac ymgynghoriadau'r Comisiynydd - a nodir isod yn yr adroddiad hwn - sydd wedi arwain at y Pwyllgor i argymhell rhai camau i gryfhau'r trefniadau hynny at y dyfodol.

15. Wrth wneud argymhellion, mae'r Pwyllgor yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir yn gymesur. Mae hyn yn bwysig o ran defnyddio adnoddau ac o ran y baich a roddir ar Aelodau a lobiwyr i ddatrys unrhyw broblemau canfyddedig yn y maes hwn.

16. Nid proses statig yw datganoli, ac mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i hyn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod na fydd yr hyn sy'n briodol ac yn gymesur ar hyn o bryd yn parhau felly o reidrwydd.

Diben a gwerth cofrestr statudol o lobïwyr

Asesiad y Comisiynydd

17. Mewn sylwadau a wnaed i'r Comisiynydd, ac mewn cyflwyniadau ysgrifenedig i Senedd y DU, nodwyd bod angen didwylledd ac atebolrwydd os yw'r cyhoedd am barhau i fod yn hyderus yn y broses lobïo. Er enghraifft, mae Public Affairs Cymru yn cydnabod bod cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd rhwng Aelodau etholedig neu uwch weision sifil â phawb sy'n ceisio ymgysylltu â hwy yn hanfodol o ran cyflawni'r gwell didwylledd sydd ei angen.

18. Fodd bynnag, o ran cynigion Llywodraeth y DU i gyflwyno cofrestr statudol, nododd y Comisiynydd ei bod trafferthion wedi bod wrth geisio dod i gytundeb ar ystyr y gair 'lobïwr', ac roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn erbyn cofrestr statudol am y rheswm hwnnw.

19. Roedd y diffyg eglurder ynghylch a ellid neu a ddylid categoreiddio, er enghraifft, elusennau, academyddion, grwpiau preswylwyr neu etholwyr unigol fel lobïwyr, a'u gwneud yn destun rheoliadau neu gofrestr, yn codi pryderon ynghylch sicrhau nad yw'r broses ddemocrataidd yn mynd yn llai agored a bod Aelodau'r Cynulliad yn llai hygyrch i etholwyr.

20. Nododd y Comisiynydd bod y Pwyllgor Dethol Seneddol ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol wedi dod i'r casgliad bod cynigion Swyddfa'r Cabinet ar gofrestr gynhwysfawr statudol yn anymarferol. Roedd yn ffafrio cefnu ar y cynigion hynny a chael system reoleiddio gymedrol a fyddai'n cynnwys pawb sy'n lobïo'n broffesiynol, mewn swydd gyflogedig, ac a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n lobïo ddatgan y materion y maent yn lobïo'r Llywodraeth yn eu cylch.³

Safbwynt y Pwyllgor

21. Mae'r Pwyllgor wedi nodi pryderon a godwyd gan Public Affairs Cymru (PAC) ynghylch y diffiniad o 'lobïwr', gan gydnabod y gall lobïwyr mewnol a chynrychiolwyr undebau llafur a sefydliadau trydydd sector, yn ogystal ag ymgynghorwyr materion cyhoeddus a lobïwyr

³Ail adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Ddiwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol - Introducing a statutory register of lobbyists - Cyfrol 1, 13 Gorffennaf 2012.

masnachol unigol, gynnal gweithgarwch lobïo. Er bod aelodaeth PAC yn cynnwys elusennau a chyrrff o'r tu allan i Gymru, nid yw'n cynnwys undebau llafur er enghraifft, ac mae'r sefydliad yn pryderu y dylai pawb sy'n ceisio ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad gael eu trin yn yr un modd.

22. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y trafferthion wrth gytuno ar ddiffiniad cyffredin o 'lobïwr', yn enwedig o ran sut mae'r 60 Aelod etholedig o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymgysylltu ag ystod eang o gynrychiolwyr cymdeithas ddinesig Cymru o ddydd i ddydd. Er mwyn cyflawni eu swyddogaethau fel gwleidyddion etholedig, mae'n rhaid i Aelodau unigol wneud penderfyniadau dyddiol ynghylch sut a gyda phwy y maent yn ymgysylltu â hwy, a chofio ei bod yn rhaid iddynt gadw at y Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cynulliad.

23. Nid yw'r Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol wedi ategu unrhyw ddiffiniad penodol o lobïwr cyn i Lywodraeth y DU wneud cynigion manwl ar gyfer cofrestr statudol, ond mae wedi dweud: "If it is the activity of lobbying that is defined, rather than what a lobbyist is, then it should be easier to require anyone who is carrying out the defined activity to be registered as a lobbyist."

24. Er mwyn datblygu dull sy'n briodol i Gymru, sy'n canolbwyntio ar *weithgarwch lobïo*, h.y. gweithgarwch sy'n ceisio dylanwadu ar Aelodau, mae angen system sy'n ceisio cynnwys gymaint â phosibl y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd lobïo, yn broffesiynol ac mewn swydd gyflogedig. Byddai hyn yn cynnwys lobïwyr mewnol, elusennau, cymdeithasau masnachu a sefydliadau eraill sy'n cyflogi staff i wneud gwaith lobïo, a lobïwyr unigol, yn ogystal ag ymgynghorwyr ac asiantau sydd naill ai'n lobïo'n uniongyrchol, neu ar ran cleientiaid neu sy'n cynghori cleientiaid ar ymgymryd â gwaith lobïo.

Dull 'Gwnaed yng Nghymru'

25. Yr hyn sy'n deillio o ymchwiliad y Pwyllgor yw'r dyhead cyffredinol i ganfod dull 'gwnaed yng Nghymru' boddhaol.

26. Fel sydd eisioes wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn, nid yw'r Pwyllgor yn ystyried ei bod yn briodol i dderbyn y trefniadau presennol fel ag y maent. Yn yr un modd, nid yw'n gweld yr angen i ddeddfu ar gyfer system o gofrestru statudol ar hyn o bryd.

27. Mae'r Pwyllgor yn teimlo ei bod hi'n bwysig cael system sy'n rhoi cymaint o dryloywder â phosibl ynghylch pwy y mae lobiwyr proffesiynol yn cwrdd â hwy, heb unrhyw faich diangenrhaid ar bwrs y wlad.

Codau Ymarfer

28. O ran cod ymarfer, nid yw Llywodraeth y DU yn cynnig cyfuno Cod Ymddygiad statudol o unrhyw fath â Chofrestr, gan ffafrio gadael i'r diwydiant ei reoleiddio ei hun. Mae'r Comisiynydd a'r Pwyllgor yn nodi bod Public Affairs Cymru eisioes wedi cyflwyno Cod Ymddygiad, y cafodd y Comisiynydd Safonau ei ymgynghori yn ei gylch, ac y mae ei holl aelodau yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol wedi ymrwymo iddo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bodolaeth cod o'r fath, sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithwyr proffesiynol materion cyhoeddus yng Nghymru i weithio mewn modd didwyll, tryloyw a gonest.

Cofrestru gwybodaeth am weithgarwch lobiö yn wirfoddol

29. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y syniad o gael cyfundrefn gymesur o gofrestru gwirfoddol ar gyfer lobiwyr proffesiynol, gyda'r pwyslais ar gadw cofnodion o gyfarfodydd rhwng lobiwyr ac Aelodau. Mae'n cefnogi'r egwyddor bod lobiwyr proffesiynol yn sicrhau bod manylion am eu haelodau/gweithwyr, eu cleientiaid, a'r meysydd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt ar gael yn gyhoeddus.

30. Mae'r Pwyllgor hefyd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol bod rhagor o wybodaeth ar gael yn gyhoeddus gan lobiwyr proffesiynol ynghylch faint o arian a gaiff ei wario ar gyfer pob prif faes lobiö. Dylid nodi bod y Pwyllgor yn parchu hawliau lobiwyr i beidio gorfod datgelu gwybodaeth fasnachol gyfrinachol am eu ffioedd, ond gellid rhoi syniad o gostau unrhyw ddigwyddiad mawr sydd wedi'i anelu'n

benodol at Aelodau'r Cynulliad er mwyn bod yn dryloyw, ac o ran hawl y cyhoedd i gael gwybod.

31. Er enghraifft, os oes nifer o Aelodau'r Cynulliad yn mynd i ddigwyddiad ac yna'n cynnal pleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar fater lle mae gan drefnydd y digwyddiad neu gleient iddo fuddiant masnachol cryf yn y canlyniad, byddai hynny'n fater o ddiddordeb i'r cyhoedd, er efallai na fyddai'n rhaid i Aelodau unigol gofrestru'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan yn y digwyddiad hwnnw yn unol â'r Rheolau Sefydlog a'r trothwy ar gyfer cofrestru buddiannau.

32. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn gryf o'r farn na ddylid gosod baich llethol dianghenraid, o ran amser ac adnoddau, ar sefydliadau neu ymgyrchwyr llai o'r sector gwirfoddol, y sector elusennol neu'r trydydd sector. Roedd y Pwyllgor a'r Comisiynydd yn ffafrio dull na fyddai'n gosod baich ar bwrs y wlad. Maent hefyd yn ffafrio system nad yw'n gosod baich dianghenraid ar Aelodau'r Cynulliad. Nododd y Comisiynydd ei hun fod y dasg o gofnodi pob cyfarfod anffurfiol neu geisio penderfynu pwy sy'n lobiwr bron a bod yn amhosibl. Ar yr un pryd, nodir yr angen i roi'r atebolrwydd sy'n angenrheidiol yn y maes hwn i'r cyhoedd.

33. Wrth ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar gael cofrestr statudol, dywedodd y corff ambarél proffesiynol presennol yng Nghymru, Public Affairs Cymru (PAC), ei fod yn awyddus i ymgysylltu â'r Cynulliad ar ddatblygu cynigion i Gymru. Felly, mae Cadeirydd y Pwyllgor a'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau agored ac adeiladol â PAC ynghylch yr opsiynau posibl ar gyfer datblygu system dryloyw ac ymarferol.

34. Mae'r Pwyllgor, y Comisiynydd a PAC yn rhannu'r dymuniad i hyrwyddo rhagor o dryloywder a didwylledd am y cysylltiad rhwng Aelodau a'r rhai sy'n ymwneud â gweithgarwch lobiö. Fodd bynnag, wrth edrych ar y gwahanol opsiynau ar gyfer datblygu system gofrestru wirfoddol, nid yw wedi bod yn bosibl canfod opsiwn ymarferol sy'n gymesur, h.y. opsiwn sy'n osgoi unrhyw faich dianghenraid ar y lobiwr, yr Aelod a phwrs y wlad.

35. Wrth drafod y cynigion cychwynnol â PAC, mae ei aelodau wedi codi nifer o bryderon dilys ynghylch rhoi arweiniad o ran rhagor o hunan-reolaeth. Mae'r trafferthion o ran diffinio 'pwy sy'n lobiwr', a 'beth yw cyfarfod ffurfiol gyda lobiwr' yn golygu bod 'ardal lwyd' o ran

diffinio pwy ddylai fod yn rhan o broses gofrestru ffurfiol. Fodd bynnag, mae angen ystyried materion ymarferol, gweinyddol a materion o ran adnoddau wrth gyflwyno a chynnal cofrestr wirfoddol, p'un a fyddai'r diwydiant ei hyn yn gwneud hyn neu a fyddai'n swyddogaeth ychwanegol i Gomisiwn y Cynulliad, ac y telir am hyn drwy gronfeydd cyhoeddus. Ar ôl edrych ar yr opsiynau hyn yn dra gofalus, nid yw'r Pwyllgor o'r farn bod cofrestr wirfoddol yn ymateb rhesymol a chymesur yng Nghymru ar hyn o bryd i'r pryderon sydd wedi'u codi am weithgareddau lobiö ar lefel y DU.

36. Nododd y Pwyllgor na fyddai unrhyw system gofrestru wirfoddol gan lobiwyr proffesiynol yn ateb yn llawn y cwestiwn o sut i reoli gweithgareddau yng Nghymru gan lobiwyr o'r tu allan i Gymru, neu nad ydynt wedi'u cofrestru fel lobiwyr proffesiynol. Felly, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried a ddylid rhoi canllawiau i Aelodau ynghylch cyswllt ag unrhyw un sydd, yn eu tyb hwy, yn ymgymryd â gweithgarwch lobiö, er mwyn sicrhau bod cofnod o'r cyfarfod hwnnw yn cael ei gadw, ynghyd â chofnod o pwy oedd yn bresennol a'r hyn a drafodwyd.

37. O ran cadw cofnodion, mae'r Comisiynydd hefyd wedi pwysleisio pwysigrydd y ffaith bod y rheini sydd eisioes yn ymgymryd â gweithgarwch lobiö yn cadw cofnodion, p'un a fydd system gofrestru yn cael ei chyflwyno rywbryd yn y dyfodol ai peidio. Ar unrhyw adeg, gall fod yn ofynnol iddo ymchwilio i gŵyn ynghylch Aelod a lobiwr, ac mae ganddo bwerau ymchwilio yn ôl y gyfraith i alw ar dystion ac am ddogfennau.

38. Mae Corff Corfforaethol Senedd yr Alban ac, i raddau llai, Cynulliad Gogledd Iwerddon, yn cynnig canllawiau i'w Haelodau ar y rheol eirioli, ac ar lobiö a chael mynediad at yr Aelodau, gan ei fod yn ymwneud â chodau ymddygiad eu Haelodau.

39. Cafodd pwysigrwydd cael safonau a chanllawiau priodol ar lobiö ei nodi mewn adroddiad diweddar gan Grŵp o Wladwriaethau yn Erbyn Llygreddigaeth (GRECO) Cyngor Ewrop a oedd yn gwerthuso trefniadau yn y DU. Mae'r adroddiad yn nodi'r cod ymddygiad sydd wedi bod ar waith ers peth amser yn Senedd yr Alban, ac yn mynd ymlaen i nodi'r canlynol:

“Lobbying involves the actions of both the person who lobbies and the public official who is lobbied. For the process to be

properly beneficial, both sides of the process need to act appropriately with regard to one another. Therefore, regardless of the outcome of the aforementioned legislative proposal on a statutory register of lobbyists, *GRECO recommends that the Codes of Conduct and the guidance for both the Commons and the Lords be reviewed in order to ensure that the Members of both Houses (and their staff) have appropriate standards/guidance for dealing with lobbyists and others whose intent is to sway public policy on behalf of specific interests. The devolved institutions of Wales and Northern Ireland should be invited similarly to take action in accordance with the recommendation.*"⁴

40. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod canllawiau ar lobïo (cod ymarfer i Aelodau'r Cynulliad) yn cael eu rhoi i Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar eu cysylltiadau â lobïwyr gan eu hannog i gofnodi cyfarfodydd. Mae hwn wedi'i atodi yn Atodiad C. Cynigir bod y canllawiau yn cael eu mabwysiadu drwy benderfyniad gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn. Yn amodol ar gytundeb, gellid cyhoeddi'r canllawiau ar y cyd â rheolau arfaethedig newydd ar gyfer Grwpiau Trawsbleidiol (gweler isod yn yr adroddiad hwn), a fyddai'n rhan o becyn cyngor i Aelodau'r Cynulliad.

41. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r camau a gynigir yn yr adroddiad hwn helpu i dawelu meddyliau'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch lefel y tryloywder a didwylledd, a gallu'r Comisiynydd Safonau i ymchwilio i unrhyw bryderon a allai gael eu codi gydag ef yn y dyfodol mewn perthynas â lobïo. Yn unol ag argymhelliad cyntaf y Pwyllgor, i gadw golwg ar y mater hwn, awgrymir bod y Llywydd yn cymryd nodyn o ba mor effeithiol yw'r trefniadau hyn bob tair blynedd ac, os yw'n anfodlon, bod y Llywydd yn gwahodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ystyried a yw rheolaeth statudol yn angenrheidiol.

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod canllawiau ar lobïo a mynediad at Aelodau yn cael eu mabwysiadu drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

⁴ Fourth Evaluation Round – Corruption prevention in respect of Members of Parliament, judges and prosecutors, adroddiad gan Grŵp o Wladwriaethau yn Erbyn Llygredigaeth (GRECO), cyhoeddwyd 6 Mawrth 2013.

Craffu ar ymddygiad Aelodau Cynulliad unigol ac ymddygiad Gweinidogion Cymru

42. Nododd y Pwyllgor fod yr ymatebion i ymgynghoriad y DU ar gael cofrestr statudol ar gyfer lobiwyr yn tueddu i ganolbwyntio ar reoli mynediad at Weinidogion y Llywodraeth, a bod cofrestrau a gafodd eu cyflwyno mewn deddfwrfeydd rhyngwladol eraill yn dueddol o reoli mynediad at y weithrediaeth neu adeiladau seneddol.

43. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r syniad y byddai cod ymarfer i Aelodau'r Cynulliad am eu cysylltiadau â lobiwyr o ddiddordeb i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd am osgoi sefyllfa lle byddai'r y gofynion ar Aelodau'r Cynulliad unigol yn llawer mwy na'r rheini ar Weinidogion Cymru.

44. Mae'r goblygiadau ar Aelodau Cynulliad unigol a Gweinidogion Cymru yn wahanol. Dylid cyfiawnhau unrhyw newidiadau bob amser, a byddai'r Pwyllgor yn bryderus am gryfhau ymhellach y system ddwy haen o graffu ar ymddygiad Aelodau a Gweinidogion unigol.

45. Lobïo Gweinidogion, yn hytrach na lobïo Aelodau Cynulliad unigol, sy'n peri'r risg mwyaf i enw da'r Cynulliad wrth fynd ymlaen, yn enwedig pe bai'r Cynulliad i gael rhagor o bwerau ariannol yn y dyfodol.

46. Hoffai'r Pwyllgor, felly, wahodd y Prif Weinidog i ystyried rhinweddau adolygu Cod Gweinidogol Cymru, yn benodol i wneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- cyhoeddi gwybodaeth am gyfarfodydd rhwng Gweinidogion Cymru a lobiwyr proffesiynol mewn un lle, er mwyn cynyddu'r lefel o dryloywder cyhoeddus (gan nodi mai dyma yw'r arfer mewn rhai awdurdodaethau yn y DU, a'i fod hefyd yn rhywbeth y mae'r diwydiant materion cyhoeddus yng Nghymru yn galw amdano);
- ystyried a yw'r broses bresennol o ymchwilio i gwynion yn erbyn Gweinidogion o dan God Gweinidogol Cymru yn ddigon cadarn a thryloyw, neu a oes angen ei adolygu er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd yn y modd y caiff cwynion eu trin ac, yn benodol, adrodd ar ganlyniadau ymchwiliadau.

47. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 yn atal y Comisiynydd yn benodol rhag ymgymryd ag unrhyw rôl ffurfiol o ran cynghori'r Prif Weinidog am faterion sy'n ymwneud â'r Cod Gweinidogol. Fodd bynnag, mae'n gwahodd y Prif Weinidog i ystyried ymhellach y dadleuon a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn ei adroddiad diweddaraf – *Standards Matter* – ar reoleiddio annibynnol, gan gynnwys bod Cymru a Gogledd Iwerddon yn sefydlu dulliau ffurfiol o ymchwilio'n annibynnol i achosion honedig o dorri'u codau gweinidogol a bod adroddiadau unrhyw ymchwiliadau o'r fath ar gael yn gyhoeddus.⁵

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn gwahodd Prif Weinidog Cymru i ystyried canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas â gweithgarwch lobïo a Gweinidogion Cymru.

48. Yn ogystal, rhoddodd y Pwyllgor a'r Comisiwn ystyriaeth y mater o gael cyfnod 'oeri', fel sydd gan rai awdurdodaethau, cyn bod cyn-Weinidogion, cyn-Aelodau neu gyn-uwch weision sifil yn dod yn lobïwyr proffesiynol, gan nodi bod y Comisiynydd wedi cael rhai sylwadau am y mater 'drws tro' hwn. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Pwyllgor Cynghori y DU ar Benodiadau Busnes (ACOBA) yn cynghori cyn-Weinidogion Cymru a chyn uwch-Weision y Goron ar benodiadau o fewn dwy flynedd i adael eu swydd, ac mae'n rhaid iddynt gadw at y cyngor hwnnw. Defnyddir y Rheolau Penodiadau Busnes fel maen prawf ar gyfer y penodiad. Mae Cod Gweinidogol Mai 2010 yn nodi na chaiff cyn-Weinidogion lobïo'r Llywodraeth am ddwy flynedd ar ôl gadael eu swyddi. Yn ogystal, gall ACOBA benderfynu ar gyfnod aros a/neu gyfyngiadau eraill ar benodiadau. Efallai y bydd y mater 'drws tro' hwn yn un y gall y Pwyllgor ei ystyried yn y dyfodol.

⁵ Standards matter: a review of best practice in promoting good behaviour in public life – adroddiad gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, Ionawr 2013.

Grwpiau trawsbleidiol

49. Nododd y Pwyllgor fod y Comisiynydd wedi cael mwy o sylwadau gan Aelodau yn benodol am grwpiau trawsbleidiol, a bod peth pryder wedi'i nodi ynghylch y ffordd y maent yn gweithredu.

Tryloywder ac atebolrwydd

50. Mae'r Pwyllgor yn nodi'n gryf bwysigrwydd a gwerth grwpiau trawsbleidiol fel rhan o'r broses ddemocrataidd. Mae hefyd yn cytuno â barn y Comisiynydd bod tryloywder yn y ffordd y mae grwpiau'n gweithredu yn bwysig iawn. Mae'r Pwyllgor yn credu y byddai gofyniad i grwpiau trawsbleidiol gyhoeddi cofnodion o'u cyfarfodydd, a datganiad ariannol blynyddol sy'n nodi treuliau a'r buddion a gafwyd, yn ffordd dda o sicrhau rhagor o dryloywder.

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell amnewid y canllawiau presennol ar y ffordd y mae grwpiau trawsbleidiol yn gweithredu am reolau llymach a fyddai'n cael eu hategu gan y Cynulliad cyfan. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r rheolau gynnwys gofyniad i gyhoeddi cofnodion yr holl gyfarfodydd; cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; a chyhoeddi datganiad ariannol blynyddol sy'n nodi'r holl dreuliau, buddion a lletygarwch a gafwyd, ac i restru'r darparwr/darparwyr, yn ogystal â nodi unrhyw lobïwyr proffesiynol neu sefydliadau elusennol y maent wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dylid cyhoeddi'r holl wybodaeth ofynnol gyda'i gilydd ar dudalennau'r grwpiau trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad.

51. Mae'r Pwyllgor yn nodi argymhellion Gweithgor y Llefarydd ar Grwpiau Trawsbleidiol bod angen gwahaniaethu'n glir rhwng gwaith ac adroddiadau grwpiau trawsbleidiol anffurfiol a phwyllgorau seneddol ffurfiol. Ar hyn o bryd, canllawiau'r Llywydd sy'n llywodraethu grwpiau trawsbleidiol, ac nid oes unrhyw sôn am grwpiau trawsbleidiol yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r Pwyllgor o'r farn na ddylai grwpiau trawsbleidiol gael unrhyw statws ffurfiol ac na ddylent, felly, gael eu llywodraethu gan y Rheolau Sefydlog.

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai grwpiau trawsbleidiol barhau i fod y tu allan i gwmpas y Rheolau Sefydlog ac y dylid eu gweld fel rhywbeth sydd ar wahân i fusnes ffurfiol y Cynulliad.

52. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i faterion a oedd yn ymwneud ag enw da ac atebolrwydd grwpiau trawsbleidiol y Cynulliad, gan nodi pa mor bwysig yw hi bod Cadeiryddion yn llwyr gyfrifol am weithrediad y grwpiau hynny. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid pwysleisio cyfrifoldeb Cadeiryddion dros weithrediad grwpiau trawsbleidiol. Rhaid i Gadeiryddion fod yn gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau, gan gynnwys sicrhau bod unrhyw ohebiaeth am swyddogaethau'r grwpiau trawsbleidiol ar ystâd y Cynulliad yn cael eu cyhoeddi yn enw Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ac nid o dan enw noddwr neu gyfrannwr, a sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd angen ei chyhoeddi ar gael ac yn cael ei diweddarau mewn modd amserol.

53. Byddai rheolau llymach yn rhoi atebolrwydd cliriach am weithgareddau grwpiau trawsbleidiol, yn enwedig gan fod posibilrwydd y gall cyrff allanol ddarparu cymorth i ysgrifenyddiaeth y grŵp ac mae'n bwysig osgoi unrhyw bosibilrwydd bod gan y cyrff hynny ormod o ddylanwad dros fusnes grwpiau trawsbleidiol neu ddefnydd o gyfleusterau neu adnoddau a ariennir yn gyhoeddus, neu ei bod hi'n ymddangos felly.

54. O ran atebolrwydd ariannol, hoffai'r Pwyllgor osgoi unrhyw ddyblygiad diangen rhwng y gofynion ar Aelodau unigol i gofrestru buddiannau o dan Reol Sefydlog 2, a'r angen ar i grwpiau trawsbleidiol fod yn agored am y cymorth ariannol a gânt gan gyrff allanol. Awgrymir bod grwpiau trawsbleidiol yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhestru unrhyw fuddiannau perthnasol a gofrestrwyd gan Aelodau unigol o'r grŵp (gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon yn rhwydd yn y Gofrestr a gyhoeddir) ac y dylid ategu hyn gan wybodaeth am unrhyw daliadau ychwanegol i'r grŵp cyfan, e.e. am gymorth gweinyddol neu letygarwch. Byddai hyn yn golygu bod modd gwahaniaethu rhwng buddion i Aelodau unigol dros y trothwy, o gymharu â thaliadau i'r grŵp a fyddai'n fudd-dal a gaiff ei rhannu'n hafal rhwng aelodau'r grŵp. Byddai hefyd yn creu darlun cronus o'r buddion a gronwyd gan y grŵp dros y cyfnod ers ei gyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf.

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod rheolau newydd ar weithrediad grwpiau trawsbleidiol yn pwysleisio mai cyfrifoldeb Cadeiryddion grwpiau trawsbleidiol, fel aelodau etholedig, yw cydymffurfio â'r rheolau hynny.

Cydymffurfio

55. Os cytunir, drwy benderfyniad gan y Cynulliad, ar reolau newydd ar gyfer y ffordd y mae grwpiau trawsbleidiol yn gweithredu, bydd disgwyl i holl grwpiau trawsbleidiol y Cynulliad gadw atynt. Byddai'r rheolau'n nodi'n glir yr hyn fyddai'n ddisgwyliedig gan Gadeiryddion grwpiau trawsbleidiol ac ar ba sail y gellid datgofrestru grŵp os torrir y rheolau'n gyson.

56. Mater i swyddogion Comisiwn y Cynulliad yw gweinyddu'r canllawiau presennol o ddydd i ddydd. Nid yw'r Pwyllgor yn gweld unrhyw reswm dros newid y trefniadau ar gyfer gweinyddu'r rheolau o ddydd i ddydd (er enghraifft, atgoffa grwpiau trawsbleidiol o'r angen i gyflwyno cyfriflenni blynyddol). Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai unrhyw benderfyniad i ddatgofrestru grŵp am beidio â chadw at ofynion gweinyddol y rheolau newydd, e.e. y gofyniad i Aelodau ddarparu gwybodaeth benodol sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd, yn cael ei wneud gydag awdurdod y Llywydd fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad.

57. Fodd bynnag, os bydd cwyn ynghylch safonau neu ymddygiad personol yn ymwneud â'r hyn y mae Aelodau'n ei wneud fel rhan o weithgareddau grwpiau trawsbleidiol, y Comisiynydd a/neu'r Pwyllgor fyddai'n cymryd camau i ymdrin ag unrhyw gŵyn o'r fath. O dan Reol Sefydlog 22.2(i)(d), y Pwyllgor sy'n gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gŵyn a gaiff ei chyfeirio ato gan y Comisiynydd Safonau bod Aelod wedi methu â chydymffurfio ag "*..unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad yn ymwneud â safon ymddygiad yr Aelodau*", a byddai unrhyw gŵyn o'r fath yn cael ei thrin yn unol â'r weithdrefn y cytunwyd arni ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

58. Mae Rheol Sefydlog 2.10 yn caniatáu i'r Cynulliad wahardd Aelod am beidio â chydymffurfio â Rheol Sefydlog 2 (Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau), a hynny ar argymhelliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Gall y Comisiynydd a'r Pwyllgor, felly, gymryd camau os gwneir cwyn neu os oes amheuaeth na chadwyd at y rheolau ar gyfer cofrestru arian, rhoddion, lletygarwch neu unrhyw fuddion eraill y mae aelodau grwpiau trawsbleidiol yn eu cael. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw achos pan fethodd aelod o grwp trawsbleidiol gofrestru buddion yn briodol, achos a allai hefyd fod yn drosedd.

Adnoddau a chymorth ar gyfer gweithgareddau grwpiau trawsbleidiol

59. Mae'n bwysig peidio â chyflwyno rheolau neu reoliadau a fyddai'n ei gwneud yn anodd i grwpiau trawsbleidiol weithredu'n effeithiol, er enghraifft mewn perthynas â mynediad i bobl anabl. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod dyletswyddau'r Cynulliad mewn perthynas â darparu manau cyfarfod ac adnoddau i grwpiau trawsbleidiol at ddibenion mynediad i bobl anabl (er enghraifft, argaeledd dolenni sain neu gymorth eraill mewn cyfarfodydd) yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau nad yw grwpiau trawsbleidiol o dan unrhyw anfantais ddiangen. Byddai'r rheolau gweithredu newydd yn cynnwys gwybodaeth am y posibilrwydd o ddefnyddio'r Gronfa Fynediad – sef cronfa benodol gan Gomisiwn y Cynulliad sydd ar wahân i'r cymorth ariannol a nodir ym Mhenderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol – sydd ar gael i ganiatáu i Aelodau'r Cynulliad ymgysylltu ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol.

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod unrhyw reolau newydd ar gyfer grwpiau trawsbleidiol yn rhoi ystyriaeth i ddyletswyddau cydraddoldeb y Cynulliad mewn perthynas â darparu manau cyfarfod ac adnoddau at ddibenion mynediad i bobl anabl.

60. Mae gan y statws a roddir i grwpiau trawsbleidiol oblygiadau i'r ffordd y gall grwpiau o'r fath gael adnoddau. Gallai adnoddau ar gyfer grwpiau trawsbleidiol ddod o dair ffynhonnell ariannol:

- ariannu canolog o'r gyllideb a weinyddir gan Gomisiwn y Cynulliad i gefnogi busnes ffurfiol craidd y Cynulliad;
- arian o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn unol â phenderfyniad Bwrdd Taliadau annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- cymorth gan unigolion neu sefydliadau allannol sydd â diddordeb yng ngwaith y grŵp trawsbleidiol dan sylw.

61. Nid yw'r Pwyllgor yn argymhell newid y sefyllfa bresennol lle caiff grwpiau trawsbleidiol eu hystyried ar wahân yn llwyr i drafodion swyddogol y Cynulliad. Mae'r canllawiau presennol yn nodi nad oes gan Gomisiwn y Cynulliad gyllideb i gefnogi grwpiau trawsbleidiol. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i hyn yn barod, gan gynnwys darparu ystafelloedd, y Gronfa Fynediad, a chyfieithu ar y pryd o Gymraeg i Saesneg ar gais. Os nad yw adnoddau'r Comisiwn ar gael i

Aelodau, mae dau opsiwn ar gael iddynt, sef naill ai gwneud hawliad am wariant neu ddefnyddio eu costau a lwfansau swyddfa o dan y Penderfyniad i gefnogi gweithgarwch eu grŵp trawsbleidiol (er enghraifft am gymorth gweinyddol angenrheidiol), neu ddibynnu ar gyrff allannol i ddarparu'r holl gymorth.

62. Mae'n ymddangos i'r Pwyllgor fod dau gwestiwn yn codi mewn perthynas ag adnoddau. Yn gyntaf, bydd cryfhau'r rheolau ar weithrediad grwpiau trawsbleidiol a chynyddu faint o wybodaeth sydd ar gael yn anochel yn cael rhywfaint o effaith ar adnoddau Comisiwn y Cynulliad. Fodd bynnag, yr unig newid amlwg o'r drefn bresennol yw'r gost o sicrhau bod gwybodaeth ychwanegol ar gael yn ddwyieithog ar wefan y Cynulliad, e.e. hysbysiadau a chofnodion cyfarfodydd a datganiadau blynyddol, ac ni ragwelir y bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn rhy feichus i'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi. Mae'r rheolau'n nodi'n glir bod yn rhaid i grwpiau trawsbleidiol barhau i barchu'r cyfyngiadau ar y defnydd o gyfleusterau ac adnoddau'r Cynulliad.

63. Codwyd cwestiynau gan Aelodau yn y Cyfarfod Llawn hefyd ynghylch cefnogaeth gan y Comisiwn i grwpiau trawsbleidiol weithredu'n ddwyieithog (e.e. darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a chyfieithu dogfennau), gan nodi bod angen darparu rhagor o eglurder am hyn. Ceir y ddarpariaeth hon yn y rheolau newydd.

64. Yn ail, mae'n bwysig cael eglurder ynghylch i ba raddau y gall Aelodau wneud hawliadau gwariant dilys, neu ddefnyddio eu costau a lwfansau swyddfa i gefnogi eu gwaith ar grwpiau trawsbleidiol. Mae'n rhaid i swyddogion sy'n gyfrifol am roi arweiniad i Aelodau ar eu defnydd o gostau a lwfansau swyddfa gael arweiniad clir gan y Bwrdd Taliadau am y pwynt hwn. Mae egwyddorion cymorth ariannol yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau yn nodi: "Dim ond am wariant y bu'n rhaid ei ysgwyddo er mwyn i ddyletswyddau'r Aelod fel Aelod Cynulliad gael eu cyflawni y caniateir i gais gael ei wneud."

65. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Bwrdd Taliadau eisioes wedi ystyried y meini prawf y gall Aelodau eu hawlio am gostau teithio a wnaethpwyd 'i gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod Cynulliad'. Ar hyn o bryd, mae paragraff 5.1.2 o'r Penderfyniad yn nodi fod yn rhaid 'ei bod yn siwrnai am reswm sydd wedi'i ddatgan gan y Cynulliad; 'ei bod yn gysylltiedig â mater sydd ar hyn o bryd gerbron y Cynulliad neu un o'i bwyllgorau y mae'r Aelod yn gwasanaethu arno'; neu 'ei bod yn

berthnasol i etholwr i'r Aelod neu ei bod yn berthnasol yn gyffredinol i etholaeth neu ranbarth yr Aelod.' Er bod y Bwrdd wedi nodi ei bod yn bosibl y bydd yn gwneud rhywfaint o newidiadau i'r geiriad pan fydd yn cynnal ei adolygiad nesaf ar y Penderfyniad⁶, nododd hefyd y bydd angen i Aelodau barhau i ddefnyddio'u synnwyr cyffredin yn y maes hwn. Ym marn y Pwyllgor, daw ymglymiad Aelodau â grwpiau trawsbleidiol, yn gyffredinol, o fewn meini prawf paragraff 5.1.2, ac yn y mwyafrif o achosion, bydd hawl gan Aelodau, yn ôl eu disgresiwn, ddefnyddio'u lwfansau mewn perthynas â gweithgarwch grwpiau trawsbleidiol (h.y. lwfansau ar gyfer costau swyddfa, e.e. cyfieithu; gwariant am lety dros nos; costau teithio Aelodau; a gwariant staff, e.e. costau teithio a/neu goramser i staff cymorth).

66. Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Taliadau am nodi argymhellion a rheolau'r Pwyllgor ynghylch gweithgarwch grwpiau trawsbleidiol ac ystyried a yw o'r farn bod unrhyw oblygiadau ar roi'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ar waith, lle bo'n ymwneud â chefnogi gweithgarwch mewn perthynas â grwpiau trawsbleidiol.

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Comisiwn y Cynulliad yn nodi goblygiadau'r rheolau newydd ar yr agweddau hynny ar weithgarwch grwpiau trawsbleidiol y gellir eu hariannu o gronfeydd canolog Comisiwn y Cynulliad.

67. Mae'r Pwyllgor wedi paratoi rheolau newydd i'r Cynulliad i'w hystyried. Mae'r rhain wedi'u hatodi yn Atodiad D.

68. Er nad oes unrhyw ddarpariaethau yn y Rheolau Sefydlog ynghylch grwpiau trawsbleidiol, mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn cynnig bod ei rôl ef, a rôl y Comisiynydd, wrth ymdrin â chwynion am ymddygiad personol mewn cysylltiad â gweithgarwch grwpiau trawsbleidiol yn cael eu crybwyll yn y rheolau, sy'n nodi y gall y Pwyllgor, o dro i dro, gael adroddiad gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad ar weithredu'r rheolau. Mae hyn yn unol â'r argymhelliad olaf yn yr adroddiad hwn i gadw golwg ar drefniadau sy'n ymwneud â gweithgarwch lobïo.

Argymhelliad: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid adolygu trefniadau'r Cynulliad mewn perthynas â lobïo a grwpiau trawsbleidiol eto cyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad, er mwyn

⁶ Cofnodion cyfarfod Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2012.

sicrhau eu bod yn parhau yn addas i'r diben yng nghyd-destun proses ddatganoli ddynamig. Efallai y byddai'r Pwyllgor am wneud sylwadau pellach i'r Llywydd, Llywodraeth Cymru neu unrhyw un arall sy'n gwneud penderfyniadau o ganlyniad i newidiadau i bwerau datganoledig y Cynulliad.

Atodiad A

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

8 Mai 2012

Annwyl Mick

Lobïo

Diolch ichi am y cyfarfod adeiladol ar 1 Mai. Yn dilyn ymateb gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, meddyliais y byddai'n ddefnyddiol iawn i drafod y materion gyda chi a Gerard Elias QC.

Fel y cytunwyd, credaf y byddai'n ddefnyddiol iawn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ymgymryd ag adolygiad i ystyried y drefn sydd gennym yn ei lle ar gyfer Aelodau, a gwneud argymhellion, os oes angen, ynghylch unrhyw drefniadau ychwanegol a allai fod eu hangen i gryfhau'r drefn. Byddaf yn ystyried unrhyw argymhellion yng nghydestun materion cysylltiedig eraill fel y trefniadau ar gyfer grwpiau trawsbleidiol a'r angen i amddiffyn diwylliant y Cynulliad fel sefydliad agored a hygyrch. Credaf y byddai'n ddefnyddiol pe gallech gyflwyno adroddiad erbyn yr hydref.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i anfon at Gerard Elias QC, y Comisiynydd Safonau annibyynnol.

Rosemary Butler AC, Llywydd
Rosemary Butler AM, Presiding Officer

Atodiad B

Drwy e-bost

19 Mehefin 2012

Annwyl Aelod,

Yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin 2012, gofynnodd y Pwyllgor Safonau i mi adolygu'r trefniadau presennol sydd ar waith yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â lobïo ac i asesu a ydynt yn ddigon cadarn ac addas i'r diben ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad.

Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi cynnal adolygiad o'r Weithdrefn Gwyno yn erbyn Aelodau'r Cynulliad yn ddiweddar, a chafodd ffrwyth llafur yr adolygiad hwnnw ei anfon atoch yn ddiweddar. Y cam nesaf i mi yw cynnal adolygiad ehangach o reoliadau safonau y Cynulliad yn gyffredinol, gan gynnwys y Cod Ymddygiad, y Rheolau Sefydlog ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.

Ym marn y Pwyllgor Safonau, gellid ystyried y trefniadau lobïo fel rhan o'r adolygiad cyffredinol hwnnw, ond o gofio bod posibilrwydd y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud cynigion yn fuan i gyflwyno cofrestr statudol o lobïwyr, bydd rhoi blaenoriaeth i ystyried y trefniadau lobïo yng Nghymru yn galluogi'r Pwyllgor i gael safbwynt glir am yr hyn fyddai'n briodol ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

Felly, rwy'n cynnig y dylid cynnal yr adolygiad hwn dros yr haf a chyflwyno adroddiad o fy nghanfyddiadau i'r Pwyllgor Safonau ddechrau mis Hydref 2012.

Rwy'n atodi cylch gorchwyl y gwaith hwn fel Atodiad A. Byddwn yn gwerthfawrogi eich barn am y canlynol:

- pa mor gadarn ac addas i'r diben yw'r trefniadau presennol
- unrhyw reoliadau ychwanegol yr ystyrir sy'n angenrheidiol, a
- pa mor ddigonol yw'r trefniadau sydd yn eu lle ar hyn o bryd ar gyfer grwpiau trawsbleidiol

er mwyn fy nghynorthwyo gyda fy nhasg. Pwysleisiaf nad yw'r pwyntiau uchod yn hollgynhwysol.

Rwyf am glywed barn gwahanol randdeiliaid, ac mae gennyf ddiddordeb penodol i glywed eich barn chi. Mae croeso i chi anfon eich sylwadau ataf yn ysgrifenedig neu i drefnu cyfarfod â mi. Fy nghyfeiriad e-bost yw Comisiynydd.Safonau@cymru.gov.uk . Byddaf hefyd yn cynnal dwy sesiwn alw heibio ar y dyddiadau a'r amseroedd a ganlyn fel y gallwch rannu eich barn â mi;

Dydd Mawrth 3 Gorffennaf	10.30 - 13.30	Ystafell Fideo-Gynadledda - Llawr Cyntaf, Tŷ Hywel
Dydd Mercher 11 Gorffennaf	09.30 - 11.30	Ystafell B003 - Llawr Gwaelod, Tŷ Hywel

Fel arall, os yw'n fwy cyfleus i chi, rwy'n ddigon bodlon i chi drefnu apwyntiad personol. Cysylltwch â Jonathan Thomas, fy nghynorthwydd, drwy ffonio 02920 898948, neu drwy neges e-bost jonathan.thomas@cymru.gov.uk a bydd yn trefnu apwyntiad ar eich cyfer.

Yn gywir,

Gerard Elias QC
Y Comisiynydd Safonau
Commissioner for Standards

Atodiad C

CANLLAWIAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR LOBÏO A MYNEDIAD AT AELODAU'R CYNULLIAD

1. Bwriedir i'r canllawiau hyn gyd-fynd â gofynion Cod Ymddygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a'u hategu.
2. Ni ddylai Aelod Cynulliad, wrth ddod i gysylltiad ag unrhyw berson neu sefydliad sy'n lobïo, wneud unrhyw beth sy'n mynd yn groes i God Ymddygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, nac unrhyw reol neu benderfyniad perthnasol arall gan y Cynulliad nac unrhyw ddarpariaeth statudol.
3. Ni ddylai Aelod, wrth ddod i gysylltiad ag unrhyw berson neu sefydliad sy'n lobïo, ymddwyn mewn unrhyw ffordd a allai ddwyn anfri ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu ei Aelodau'n gyffredinol.
4. Rhaid sicrhau'r cyhoedd nad yw unrhyw berson neu sefydliad yn cael gwell mynediad at unrhyw Aelod, neu'n cael triniaeth ffafriol ganddo, o ganlyniad i gyflogi lobïwr proffesiynol⁷, naill ai fel cynrychiolydd neu i ddarparu cyngor strategol. Yn benodol, ni ddylai Aelod gynnig na rhoi mynediad neu driniaeth ffafriol i lobïwyr proffesiynol neu eu cyflogwyr. Ni ddylid chwaith roi lobïwyr proffesiynol neu eu cyflogwyr ar ddeall y gellid cael mynediad neu driniaeth ffafriol gan Aelod Cynulliad arall neu grŵp neu berson yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru neu sy'n gysylltiedig â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
5. Cyn cymryd unrhyw gamau o ganlyniad i gael ei lobïo, dylai Aelod fod yn sicr o enwau'r sawl sy'n ei lobïo a'r cymhelliant dros y lobïo. Caiff Aelod Cynulliad ddewis gweithredu mewn ymateb i lobïwr proffesiynol, ond mae'n bwysig bod yr Aelod yn gwybod ar ba sail y mae'n cael ei lobïo er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir ganddo yn cydymffurfio â'r safonau sydd wedi'u nodi yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.
6. Ar hyn o bryd, nid oes cynllun gwirfoddol na statudol ar gyfer cofrestru lobïwyr proffesiynol yn weithredol yng Nghymru. Cyn cytuno

⁷At ddibenion y canllawiau hyn, byddai 'lobïwr proffesiynol' yn cynnwys 'unrhyw un sy'n ymgymryd â gweithgarwch lobïo, h.y. gweithgarwch sydd wedi'i anelu at ddylanwadu Aelodau'r Cynulliad, ar sail broffesiynol neu mewn swydd gyflogedig'. Mae hyn yn cynnwys lobïwyr mewnol, elusennau, cymdeithasau masnachu a sefydliadau eraill sy'n cyflogi staff i wneud gwaith lobïo, a lobïwyr unigol, yn ogystal ag ymgynghorwyr ac asiantau sydd naill ai'n lobïo'n uniongyrchol, neu ar ran cleientiaid neu sy'n cyngori cleientiaid ynghylch ymgymryd â gwaith lobïo.

i gyfarfod â pherson neu sefydliad y mae'r Aelod yn credu ei fod yn lobiwr proffesiynol, efallai y byddai'r Aelod am ddarganfod a yw'r lobiwr yn aelod o gorff proffesiynol sy'n cofrestru gwybodaeth am bwy y mae ei aelodau yn eu cynrychioli, ac sydd â chod ymddygiad proffesiynol ar gyfer ei aelodau. Byddai hyn yn cynnwys cyrff materion cyhoeddus fel Public Affairs Cymru a'r Gymdeithas Ymgynghorwyr Gwleidyddol Proffesiynol (APPC). Os nad yw'r lobiwr yn aelod o gorff proffesiynol o'r fath, rhaid i'r Aelod Cynulliad wneud penderfyniad ynghylch a yw am barhau i gyfarfod yr unigolyn hwnnw.

7. Yn ogystal, dylai Aelodau ystyried un neu fwy o'r camau a ganlyn:

- cadw cofnod o'r holl gyfarfodydd y maent yn eu cael â phobl sydd, yn eu tyb hwy, yn gwneud gwaith lobiö;
- cyn cytuno i'w gyfarfod, gofyn i'r person sy'n gwneud y gwaith lobiö gadw cofnod o'r cyfarfod a sicrhau y gall yr Aelod gael mynediad at y cofnod hwnnw, ar unrhyw adeg yn y dyfodol, pe bai galw amdano;
- trefnu bod aelod o'u staff cymorth yn cymryd nodiadau mewn unrhyw gyfarfodydd y maent yn eu cael â phobl sydd, yn eu tyb hwy, yn gwneud gwaith lobiö.

8. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn pennu'r safonau disgwylidig ar gyfer derbyn lletygarwch, rhoddion a buddion. Yn ogystal â hyn, a darpariaethau statudol Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gofyn i Aelodau:

- wrthod unrhyw waith am dâl a fyddai'n golygu eu bod yn lobiö ar ran unrhyw berson neu sefydliad neu ar ran cleientiaid unrhyw berson neu sefydliad;
- gwrthod unrhyw waith am dâl i ddarparu gwasanaethau fel strategydd, cynghorwr neu ymgynghorydd, er enghraifft cynghori ar faterion yn ymwneud â Chynulliad Cenedlaethol Cymru neu gynghori ynghylch sut i ddylanwadu ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i Aelodau. (Nid yw hyn yn rhwystro Aelod rhag cael ei dalu am waith a allai godi oherwydd ei fod yn aelod o'r Cynulliad, neu mewn perthynas â hynny, er enghraifft newyddiaduraeth neu ddarlledu, sy'n cynnwys gwneud sylwadau gwleidyddol neu fod yn rhan o waith cynrychioladol neu gyflwyniadol, er enghraifft bod yn rhan o ddirprwyaethau neu gymryd neu rhan mewn cynadleddau neu ddigwyddiadau eraill);
- gwrthod pob lletygarwch, budd neu rodd, ar wahân i'r rhai mwyaf di-nod neu achlysurol, os yw'r Aelod yn ymwybodol mai lobiwr proffesiynol sy'n eu cynnig. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn amlinellu'r safonau ymddygiad personol a'r egwyddorion cyffredinol am ymddygiad a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion i "[b]eidio â

derbyn unrhyw arian fel cymhelliant neu dâl am arfer dylanwad seneddol”, y rheol ynghylch “dim adfocatiaeth â thâl”, ac i beidio â “rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.” Gan fod nifer o bobl o’r farn bod lobiwyr proffesiynol yn gwerthu eu gwasanaethau drwy honni y gallant gynnig dylanwad i’w cleientiaid dros bobl sy’n gwneud penderfyniadau, gallai fod yn rhesymol meddwl y gallai derbyn budd o unrhyw fath ddylanwadu ar farn Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau swyddogol. (Os daw Aelod yn ymwybodol o ffynhonnell y lletygarwch, budd neu rodd ar ôl ei dderbyn, dylai ystyried naill ai ad-dalu costau unrhyw letygarwch neu fudd neu ddychwelyd unrhyw rodd.)

9. Caiff Aelodau gymryd rhan mewn digwyddiadau lle codir tâl ar bobl eraill i fod yno. Er enghraifft, gall cymryd rhan mewn cynhadledd neu seminar lle codir tâl ar gynrychiolwyr fod yn ffordd ddefnyddiol i Aelod gasglu barn eang am bwnc penodol. Fodd bynnag, mae’n bosibl y gallai fod rhywfaint o bryder bod digwyddiadau sy’n syrthio i’r categori hwn yn ffordd o ‘brynu’ mynediad at Aelodau’r Cynulliad. Mae’n bwysig nad oes sail i unrhyw ganfyddiad o’r fath. Ni ddylid, felly, gynnig na rhoi unrhyw driniaeth ffafriol i unrhyw berson neu sefydliad ar ôl dod i gyswllt cychwynnol ag Aelod Cynulliad mewn digwyddiad o’r fath.

10. Ni ddylai Aelodau gymryd rhan mewn unrhyw ddigwyddiad os ydynt yn ymwybodol, neu’n dod yn ymwybodol, fod y trefnwyr yn hyrwyddo’r digwyddiad ar y sail bod y rhai sy’n talu i ddod i’r digwyddiad yn ‘prynu’ dylanwad Aelodau’r Cynulliad neu y gallant ddisgwyl cael mynediad gwell at Aelodau’r Cynulliad, neu driniaeth well gan Aelodau’r Cynulliad yn y dyfodol, na fyddai’n cael ei roi i berson neu sefydliad arall.

11. Wrth gytuno i noddï unrhyw ddigwyddiad, cyfarfod neu arddangosfa ar ystâd y Cynulliad, rhaid i Aelodau bob amser gydymffurfio â gofynion Canllawiau Digwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r Telerau ac Amodau ar gyfer digwyddiadau, a gaiff eu hanfon at drefnwyr digwyddiadau a’r Aelodau sy’n noddï’r digwyddiad. Rhaid i’r Aelod sy’n noddï’r digwyddiad, neu gynrychiolydd ar ei ran, fynd i’r digwyddiad, arddangosfa neu gyfarfod, a’r Aelod hwnnw sy’n gyfrifol am y digwyddiad.

12. Dylai Aelodau sicrhau bod staff sy’n gweithio iddynt fod yn ymwybodol o’r rheolau a’r canllawiau hyn, a’u bod yn cadw atynt wrth weithredu ar ran Aelod neu mewn unrhyw berthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Atodiad D

RHEOLAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR Y Ffordd MAE GRWPIAU TRAWSBLEIDIOL YN GWEITHREDU

1. Cyflwyniad

Mae gan grwpiau trawsbleidiol gydnabyddiaeth eang am fod yn rhan werthfawr o'r broses ddemocrataidd. Mae hi yr un mor bwysig bod grwpiau yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw.

Mae'r rheolau hyn ar y ffordd mae grwpiau trawsbleidiol yn gweithredu yn disodli Canllawiau'r Llywydd ar Ffurio Grwpiau Trawsbleidiol, a wnaed ar 10 Mawrth 2004.

Mae holl grwpiau trawsbleidiol presennol y Cynulliad yn ddarostyngedig i'r Rheolau newydd hyn o'r dyddiad y daw'r Rheolau i rym.

2. Diffiniad a statws

Diben grwpiau trawsbleidiol y Cynulliad yw cynnig fforwm i Aelodau'r Cynulliad o wahanol bleidiau i ddod ynghyd i drafod ac ystyried meysydd sydd o ddiddordeb cyffredinol iddynt.

Nid yw grwpiau trawsbleidiol yn grwpiau ffurfiol o'r Cynulliad ac nid ydynt felly'n ddarostyngedig i Reolau Sefydlog y Cynulliad. Nid oes rôl ffurfiol ganddynt mewn datblygu polisi.

Caiff Aelodau sefydlu grwpiau trawsbleidiol i ymdrin ag unrhyw faes sy'n berthnasol i'r Cynulliad, ond ni ddylai geisio dyblygu meysydd swyddogaeth pwyllgorau'r Cynulliad, ac nid oes ganddynt unrhyw bwerau fel sydd gan bwyllgorau'r Cynulliad (h.y. ni allant alw ar unrhyw dystion neu Weinidogion i ddod i'w cyfarfodydd neu i gyflwyno dogfennaeth, ac ni chânt ddefnyddio logo na brand Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

3. Aelodaeth

Rhaid i grŵp trawsbleidiol gynnwys Aelodau o dri grŵp plaid gwleidyddol o leiaf a gaiff eu cynrychioli yn y Cynulliad.

Yn ogystal, gall grwpiau gynnwys aelodau o'r tu allan i'r Cynulliad. Y grŵp fydd yn cael penderfynu gwahodd unigolion o'r tu allan i'r Cynulliad i fod yn aelod.

4. Ethol deiliaid swyddi

Dylai pob grŵp ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd.

Rhaid i Gadeirydd y grŵp fod yn Aelod Cynulliad. Gall Ysgrifennydd y grŵp fod naill ai'n Aelod Cynulliad, yn aelod o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad neu'n unigolyn o'r tu allan i'r Cynulliad. Pan fydd grŵp yn penodi Ysgrifennydd nad yw'n Aelod Cynulliad, ni chaiff yr unigolyn hwnnw weithredu heb gael sêl bendith Cadeirydd y grŵp o flaen llaw. Rhaid i bob hysbysiad, gohebiaeth, dogfennaeth a threfniadau eraill ynghylch gweithgareddau'r grŵp gael eu cyhoeddi yn enw'r Cadeirydd.

Fel arfer, rhaid i grŵp gynnal cyfarfod i ethol ei ddeiliaid swyddi. I ddechrau, disgwylir i'r deiliaid swyddi gael eu hethol mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol. Fodd bynnag, gall deiliaid swyddi hefyd gael eu hethol yng nghyfarfodydd eraill y grŵp. Ar ôl ethol deiliad swydd, dylai Cadeirydd y grŵp roi hysbysiad ynghylch y newid hwn o fewn pedair wythnos gan ddefnyddio'r ffurflen gofrestru yn Atodiad A.

5. Cofrestru

Ar ôl cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol neu ethol deiliaid swyddi drwy ddull arall, dylai grwpiau trawsbleidiol gael eu cofrestru drwy ddefnyddio'r ffurflen gofrestru briodol. Rhaid i'r ffurflen gofrestru gael ei llofnodi gan Gadeirydd y grŵp, a rhaid iddo gynnwys rhestr o'r aelodau, gan gynnwys enw o leiaf dau Aelod arall o ddau grŵp plaid arall yn y Cynulliad, ac enwau holl aelodau'r grŵp nad ydynt yn Aelodau Cynulliad.

Bydd y manylion ar y ffurflenni cofrestru yn cael eu cyhoeddi gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad ar adran y grŵp trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Cynulliad.

Bydd disgwyl i grwpiau trawsbleidiol sydd eisoes yn bodoli yn y Cynulliad gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol o fewn 12 mis i'r dyddiad y daeth y rheolau hyn i rym. Bydd disgwyl i unrhyw grwpiau a gaiff eu cofrestru ar ôl y dyddiad hwn gynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol o fewn 12 mis i'r dyddiad y cawsant eu cofrestru.

6. Ailgofrestru grwpiau trawsbleidiol ar ôl cyfnod o ddiddymiad

Mae'n rhaid i grwpiau ailgofrestru ar ddechrau pob Cynulliad newydd ar ôl etholiad.

7. Cofnodi newidiadau

Cadeirydd y grŵp sy'n gyfrifol am roi gwybod am unrhyw newidiadau i fanylion grwpiau, gan gynnwys newidiadau i ddeiliaid swyddi, drwy

gyflwyno ffurflen gofrestru ddiwygiedig. Dylid rhoi gwybod am unrhyw newidiadau o fewn pedair wythnos i'r dyddiad y daethant i rym, a byddant yn cael eu cyhoeddi ar adran y grŵp trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Cynulliad.

Cynnal cyfarfodydd

8. Defnyddio cyfleusterau ac adnoddau'r Cynulliad

Nid yw grwpiau trawsbleidiol yn cael blaenoriaeth dros fusnes swyddogol y Cynulliad, ac felly dim ond pan fydd cyfleusterau'r Cynulliad ar gael y cânt eu defnyddio.

Rhaid i Gadeirydd y grŵp wneud cais i neilltuo ystafell ar gyfer cynnal cyfarfod o'r grŵp trawsbleidiol. Yr Aelod hwnnw fydd hefyd yn gyfrifol am holl drefniadau'r cyfarfod gan gynnwys mynd i gwrdd ag aelodau allanol o'r grŵp a'u tywys o amgylch adeiladau'r Cynulliad.

Nid oes gan grwpiau trawsbleidiol hawl i ddefnyddio unrhyw rai o wasanaethau staffio Comisiwn y Cynulliad fel gwasanaethau'r pwyllgorau. Fodd bynnag, caiff cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ei ddarparu ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir ar ystâd y Cynulliad os bydd Cadeirydd y grŵp yn gwneud cais am y gwasanaeth.

Rhaid i grwpiau trawsbleidiol barchu'r cyfyngiadau sydd ar eu defnydd o gyfleusterau ac adnoddau'r Cynulliad. Caiff Aelodau wneud defnydd rhesymol o gyfleusterau ffôn, ffacs, llungopïo a TG y Cynulliad ac offer swyddfa'r Cynulliad wrth ymgymryd â busnes grwpiau trawsbleidiol, neu er mwyn cyflawni gofynion y rheolau hyn, e.e. i ddarparu gwybodaeth i'w chyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y grŵp yn cydymffurfio â'r rheolau ar ddefnydd y grŵp o adnoddau a chyfleusterau'r Cynulliad. Nid oes gan sefydliadau nac unigolion allanol, sydd â chysylltiadau â grwpiau trawsbleidiol, hawl i ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad.

9. Darparu gwybodaeth yn leithoedd Swyddogol y Cynulliad

Bydd unrhyw wybodaeth a gaiff ei darparu gan Gomisiwn y Cynulliad am grwpiau trawsbleidiol, ac sydd i'w chyhoeddi ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y rheolau hyn, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â darpariaethau Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012 a Chynllun leithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am aelodaeth, dyddiad a lleoliadau cyfarfodydd, cofnodion yr holl gyfarfodydd, gan gynnwys y cyfarfod cyffredinol blynyddol, a'r datganiad ariannol blynyddol.

Y grŵp trawsbleidiol ei hun fydd yn gyfrifol am wneud trefniadau i

gyfieithu dogfennau sy'n gysylltiedig â'r grŵp trawsbleidiol nad oes angen eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

10. Cronfa Fynediad y Cynulliad

Sefydlwyd y Gronfa Fynediad i sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad y cymorth angenrheidiol i ymgysylltu ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol, ac i ddarparu cymorth ychwanegol i Aelodau anabl a staff cymorth anabl.

Ni cheir defnyddio'r Gronfa Fynediad i dalu am wasanaethau cyfieithu testun i leithoedd Swyddogol y Cynulliad nac ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn digwyddiadau a noddir gan Aelodau a gaiff eu trefnu gan gyrff allanol.

Os yw'r Cadeirydd yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol ar y grŵp trawsbleidiol er mwyn caniatáu iddo ymgysylltu ag etholwyr sydd ag anghenion amrywiol, er enghraifft i gyfieithu ar y pryd i iaith ar wahân i un o ieithoedd swyddogol y Cynulliad, ac na all y cymorth hwn gael ei ddarparu gan aelodaeth y grŵp, yna gallant gyflwyno achos busnes i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau er mwyn defnyddio'r Gronfa. Ceir canllawiau manylach ar y Gronfa Fynediad ar Fewnrwyd yr Aelodau. Wrth gyflwyno achos busnes am gymorth ariannol, dylai'r Cadeirydd ystyried statws grwpiau trawsbleidiol a chofio nad ydynt yn rhan o drafodion swyddogol y Cynulliad.

11. Rhoi gwybod am gyfarfodydd o flaen llaw

Fel arfer, cyfrifoldeb Cadeirydd y grŵp fydd cyhoeddi gwybodaeth am amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd y grŵp. Os yw'r swyddogaeth honno wedi cael ei dirprwyo i Ysgrifennydd y grŵp, ni chaiff yr unigolyn hwnnw weithredu heb gael sêl bendith Cadeirydd y grŵp o flaen llaw. Rhaid i bob hysbysiad, gohebiaeth, dogfennaeth a threfniadau eraill ynghylch gweithgareddau'r grŵp gael eu cyhoeddi yn enw'r Cadeirydd.

Dylai Cadeirydd y grŵp ddarparu manylion am amseroedd a lleoliadau cyfarfodydd i swyddogion perthnasol Comisiwn y Cynulliad fel y gallant gyhoeddi'r wybodaeth ar adran y grŵp trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad.

12. Rheolau ariannol a chofrestru buddiannau

Nid oes gan y Cynulliad gyllideb i dalu am gostau rhedeg grwpiau trawsbleidiol, ac eithrio i dalu am yr adnoddau a nodir yn adrannau 8-10 uchod. Rhaid i aelodau'r grŵp dalu am unrhyw gostau eraill o'r fath eu hunain.

Mae'n rhaid i grwpiau trawsbleidiol gofio am uniondeb y Cynulliad wrth ystyried derbyn unrhyw symiau arian, rhoddion, lletygarwch ac

ati gan gyrff allanol. Yn benodol, mae gofyn i Aelodau unigol gydymffurfio â'r rheolau ynghylch cofrestru a datgan buddiannau ariannol mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd y maent yn ymgymryd â hwy o fewn grwpiau trawsbleidiol neu ar ran y grŵp – fel y'i nodwyd yn Rheol Sefydlog 2.

Yn benodol, mae Adran 5 o'r Atodiad i Reol Sefydlog 2 yn nodi'r buddiannau cofrestradwy. Mae hyn yn cynnwys; "(iv) rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a ragnodir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad..." a "(v) unrhyw dâl neu fudd materol arall y mae'r Aelod [...] yn ei gael oddi wrth unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd wedi tendro, neu sy'n tendro, am gontract gyda'r Cynulliad, neu sy'n meddu ar gontract o'r fath."

Ar 10 Mai 2006, penderfynodd y Cynulliad mai lefel y gwerth y mae'n rhaid cofrestru/datgan rhoddion, lletygarwch ac unrhyw fuddion eraill yw 0.5% o gyflog blynyddol crynswth sylfaenol y Cynulliad i Aelod Cynulliad. O dan y Penderfyniad presennol, mae hyn yn cynnwys unrhyw beth sydd werth mwy na £269.26 (0.5% o £53,852)

Mae Aelod Cynulliad sy'n cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad ond nad yw wedi cydymffurfio â'r rheolau ar gofrestru buddiannau yn cyflawni trosedd o dan adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn ogystal â'r gofyniad i Aelodau unigol o grwpiau trawsbleidiol gofrestru unrhyw symiau arian, rhoddion, lletygarwch neu fuddion eraill gan gyrff allanol ar Gofrestr Buddiannau'r Cynulliad (yn unol â Rheol Sefydlog 2), dylai adroddiad blynyddol y grŵp trawsbleidiol restru'r holl fuddion a gafwyd gan y grŵp cyfan, neu gan aelodau unigol, gan gyrff allanol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth gweinyddol neu gymorth arall neu wasanaethau a ddarparwyd i'r grŵp.

Caiff Aelodau eu hatgoffa hefyd am ddarpariaethau Rheol Sefydlog 2.8, sy'n gwahardd lobio am dâl neu gydnabyddiaeth ac sy'n drosedd o dan adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Caiff lobio am dâl neu gydnabyddiaeth ei ddiffinio yn y Rheolau Sefydlog fel cychwyn neu ddadlau o blaid "unrhyw achos neu fater ar ran unrhyw gorff neu unigolyn mewn unrhyw drafodion yn y Cynulliad, nac annog unrhyw Aelod arall i gychwyn neu ddadlau o blaid unrhyw achos neu fater mewn unrhyw drafodion o'r fath, yn gyfnewid am unrhyw dâl neu fudd mewn da, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y mae'r Aelod, neu, hyd y gŵyr yr Aelod, ei bartner neu unrhyw blentyn dibynnol sydd gan yr Aelod, wedi'i gael neu'n disgwyl ei gael."

13. Y cyfarfod cyffredinol blynyddol a'r adroddiad blynyddol a'r datganiad ariannol

Rhaid i Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol alw am gyfarfod cyffredinol blynyddol bob 12 mis. Yn y cyfarfod hwnnw, rhaid i'r grŵp enwebu a phleidleisio dros y deiliaid swyddi (gweler yr adran 'Ethol deiliaid swyddi' uchod). Rhaid i'r deiliaid swyddi gael eu hethol yn swyddogol yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol hyd yn oed os yw'r deiliad swydd wedi cael ei benodi eisioes mewn cyfarfod diweddar.

Cyfarfod cyntaf y grŵp fydd ei gyfarfod cyffredinol blynyddol dechreuol. Ar ôl pob cyfarfod cyffredinol blynyddol wedi hynny, rhaid i Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol, o fewn 6 wythnos, gyhoeddi adroddiad blynyddol a datganiad ariannol. Rhaid i'r adroddiad:

- gynnwys aelodaeth y grŵp ac enwau deiliaid y swyddi;
- nodi nifer y cyfarfodydd y mae'r grŵp wedi'u cynnal ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf, pwy fu'n bresennol, a chrynodeb o'r materion a drafodwyd;
- nodi enwau'r holl lobïwyr proffesiynol a'r sefydliadau gwirfoddol ac elusennol y mae'r grŵp wedi cwrdd â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol; a
- chynnwys datganiad ariannol blynyddol sy'n nodi gwariant y grŵp a pha fuddion a lletygarwch a gafodd y grŵp. Rhaid i'r datganiad gynnwys dadansoddiad o gostau'r holl nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd, a'r buddion a gafwyd, ac enwau'r darparwr/darparwyr.

Rhaid cyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r datganiad ariannol ar adran y grŵp trawsbleidiol ar wefan y Cynulliad.

14. Cofnodion cyfarfodydd

Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion pob cyfarfod o'r grŵp yn cael eu rhoi i swyddog perthnasol Comisiwn y Cynulliad o fewn pedair wythnos i gynnal y cyfarfod. Rhaid i'r cofnodion gynnwys manylion am leoliad y cyfarfod, pwy oedd yn bresennol, gan gynnwys enwau a theitlau deiliaid swyddi'r grŵp fel y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, enwau Aelodau'r grŵp ac ymwelwyr neu westeion allanol, a disgrifiad cryno o'r materion a drafodwyd. Bydd y cofnodion yn cael eu cyhoeddi ar adran y grŵp trawsbleidiol perthnasol ar wefan y Cynulliad.

15. Cydymffurfio â'r rheolau

Er bod cyfrifoldeb ar holl Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau o grwpiau trawsbleidiol i sicrhau bod y grŵp yn cynnal ei fusnes mewn modd priodol, Cadeirydd y grŵp, fel y llofnodwr, fydd yn bennaf cyfrifol am sicrhau bod y grŵp yn cydymffurfio â'r rheolau.

Gall methu â chydymffurfio â'r rheolau, neu dorri'r rheolau, mewn perthynas â chofrestru grwpiau trawsbleidiol, ethol deiliaid swyddi,

cynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol neu ddarparu gwybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y rheolau, arwain at y grŵp yn colli cydnabyddiaeth ar awdurdod y Llywydd (bydd y grŵp yn cael ei ddatgofrestru a bydd yr holl fanylion am y grŵp yn cael ei dynnu oddi ar wefan y Cynulliad).

Os oes gan unrhyw Aelod bryder ynghylch dehongli'r Rheolau, dylai gysylltu â swyddog/swyddogion Comisiwn y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gofrestru grwpiau trawsbleidiol yn yr achos cyntaf.

Yn unol â Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, y Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad fydd yn ymdrin ag unrhyw gŵyn ynghylch safonau ymddygiad personol, defnydd priodol o adnoddau'r Cynulliad a/neu gofrestru buddiannau yn unol â Rheol Sefydlog 2, mewn perthynas â gweithgareddau Aelod sy'n gysylltiedig â grŵp trawsbleidiol. Gall hyn arwain at osod sancsiynau ar Aelod penodol.

O dro i dro, gall y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ystyried papur gan swyddogion y Comisiwn sy'n ymdrin â chofrestru gwybodaeth am weithgareddau grwpiau trawsbleidiol ac, os yw'n angenrheidiol, gwneud argymhellion i'r Llywydd ynghylch cydymffurfio â'r rheolau hyn.